WWW.UMABER.CO.UK/ETHOLIADAU

NEIDIA AM NEWID

# ETHOLIADAU ARWEINYDDIAETH

## CANLLAWIAU'R YMGEISWYR 2016

# CYNNWYS


Neges oddi wrth y Llywydd .................. 3
Dyddiadau Allweddol ...................... 4
Swyddogion Llawn Amser .................. 5
Swyddogion Rhan Amser.................. 11
Swyddogion Rhyddhad ac Adrannol......... 14
Myfyriwr Ymddiriedolwr.................... 17
Cynrychiolwyr UCM ...................... 18
Rheolau ac Arweiniad..................... 19
Cyhoeddusrwydd ......................... 20
Pleidleisio ................................. 21
Hyfforddiant .............................. 22
Enwebiadau a Maniffestos ................. 23
Noson y Canlyniadau ..................... 25
Dod yn Ymgeisydd ........................ 26




# NEGES ODDI WRTH Y LLYWYDD



Caiff Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ei redeg gan fyfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr. Eich ethol chi mae myfyrwyr, nid eich rôl; gwnewch benderfyniadau ar ran Undeb y Myfyrwyr a daliwch bob Swyddog i gyfrif. Os cewch eich ethol yn Swyddog o'r Undeb, bydd eich bywyd yn newid er gwell gan fod modd i chi lunio'r dyfodol ar gyfer myfyrwyr mewn blynyddoedd i ddod. Ni fyddwch bellach yn eistedd wrth ddesg yn meddwl "beth os?", bydd gennych nawr y cymhelliant i fynd allan a gwneud newid cadarnhaol.

Ymgeisiais am swydd yn yr Undeb oherwydd fi oedd yr unigolyn a fuasai'n meddwl "beth os?" ac yna'n gwneud dim yn ei gylch. Cefais i gyfle, ac es amdani - nawr, dyma'ch cyfle chi i wneud yr un peth.

Oni fyddwch yn ymgeisio am rôl sy'n gofyn i chi hunan ddiffinio, peidiwch ag ofni ymgeisio am rôl yn Undeb y Myfyrwyr beth bynnag fo'ch hil, rhywedd, tueddfryd rhywiol, cefndir neu allu - mae rôl ar gael i bawb! Mae Prifysgol Aberystwyth yn gymuned amrywiol dros ben a buasai'n wych gweld pob swydd yn cael eu llenwi gan fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd, er mwyn sicrhau bod holl gorff y myfyrwyr yn cael ei gynrychioli'n gyfartal.

Cewch gyfle i newid profiad myfyrwyr yn Aberystwyth er gwell a dysgu pethau anhygoel bob dydd. Byddwch yn ennill profiad gwerthfawr, a chewch gyfle i weithio gyda'r tîm mwyaf bywiog o blith holl undebau myfyrwyr y wlad! Byddwch yn dechrau yn eich rôl ar un o'r adegau mwyaf cyffrous yn hanes yr Undeb. Mae cymaint o elfennau positif yn ymwneud â'r Undeb hwn, ac mae llawer mwy i ddatblygu arno ymhellach.

Hyd yn oed os nad ydych wedi arwain o'r blaen, neu hyd yn oed wedi meddwl am arwain, PEIDIWCH â diystyrru eich hun fel ymgeisydd. Os ydych yn angerddol ynglŷn â rôl yn yr Undeb, yna byddwch yn swyddog ardderchog, heb amheuaeth.

Os yw'r broses yn mynd yn anodd, yna gallwch wastad cael sgwrs gydag un o'r swyddogion presennol dros baned o goffi!

"Gyda grym, daw cyfrifoldeb." - Spiderman (2002).

Dymunaf bob lwc i chi i gyd wrth i chi ddechrau ar un o deithiau mwyaf cyffrous eich bywyd.

Pob lwc!!

**Lewis Donnelly**
Llywydd 2014-15

# DYDDIADAU ALLWEDDOL

## ENWEBIADAU'N AGOR
12yp, 11 Ionawr

## ENWEBIADAU'N CAU
12yp, 5 Chwefror

## DERBYN MANIFFESTOS
12yp, 5 Chwefror

## SESIWN BRIFFIO'R YMGEISWYR
5yp, 5 Chwefror

## CANFASIO SWYDDOGOL YN DECHRAU
12yp, 12 Chwefror

## PLEIDLEISIO'N AGOR
9yb, 17 Chwefror

## PLEIDLEISIO'N CAU
5yp, 18 Chwefror

## NOSON Y CANLYNIADAU
7.30yh, 18 Chwefror

# SWYDDOGION LLAWN AMSER

Etholir 5 swyddogion llawn amser bob blwyddyn i wasanaethu fel arweinwyr gwleidyddol UMAber. Mae gan bob un o'r rhain gyfrifoldeb penodol, ac maent yn cynrychioli holl fyfyrwyr Aberystwyth, gan gyflawni eu dyletswyddau ar sail yr addewidion a wnaed ganddynt yn eu maniffestos a gwaith cyfredol UMAber yn gyffredinol.

Mae'r swyddogion hyn hefyd yn ymddiriedolwyr ac maent yn eistedd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb yn ogystal ag eistedd ar wahanol bwyllgorau rheoli'r Brifysgol i siarad â'r grwpiau hynny ar ran myfyrwyr.

Mae'r rolau hyn yn rhai llawn amser cyflogedig a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl fel blwyddyn sabothol y tu hwnt i'w astudiaethau. Darperir hyfforddiant ar gyfer pob swyddog etholedig, ynghyd â chefnogaeth ac arweiniad i gyflawni eu rôl a throi eu hamcanion yn realiti.

## EIN HADDEWID I CHI

Pwy bynnag gaiff ei ethol, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Rydym yn addo i bob un o'n Swyddogion y byddant yn mwynhau eu hamser yn fawr, yn gwireddu eu hamcanion, yn ennill cryn lawer o sgiliau ac yn ymestyn eu gwybodaeth. Os oes angen ychydig mwy o ddarbwyllo arnoch, dyma rai o'r pethau y byddwch yn eu hennill a'u gwella drwy weithio gyda ni:

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Gwneud penderfyniadau strategol
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Lobïo
- Gwaith tîm
- Sgiliau cadeirio cyfarfodydd a phwyllgorau
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd

Os ydych chi am gael mwy o fanylion ynglŷn â bod yn Swyddogion Llawn Amser, cysylltwch â ni drwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk

# SWYDDOGION LLAWN AMSER

## LLYWYDD



Mae Llywydd UMAber yn gyfrifol am sicrhau bod amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni, fel yr amlinellir yng nghynllun strategol yr Undeb. Fel cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, bydd y Llywydd yn sicrhau y cedwir at bolisïau'r Undeb a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â gwerthoedd yr aelodaeth. Y Llywydd yw wyneb cyhoeddus Undeb y Myfyrwyr; mae'n gyfrifol am gyhoeddi datganiadau i'r wasg, cynnal cyfweliadau ac ymateb i unrhyw gwynion ac adborth gan aelodau.

Mae'r Llywydd hefyd yn eistedd ar wahanol bwyllgorau'r Brifysgol gan sicrhau perthynas gref rhwng aelodaeth Prifysgol Aberystwyth a strwythurau llywodraethiant. Mae trafnidiaeth a pherthynas â'r gymuned ymhlith y themâu a ddaw i ran y Llywydd.

Fel Llywydd, byddwch hefyd yn Gyfarwyddwr y Cwmni Masnachu (sydd ynghlwm i Undeb y Myfyrwyr) a byddwch yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr o ran monitro gweithgareddau masnachol - gan sicrhau bod incwm yn cael ei greu a bod cynhaliaeth ariannol ar gyfer ymgyrchoedd a chynrychiolaeth.

Mae'r Llywydd yn cynorthwyo'r Swyddogion Ymddiriedolwyr ac yn eu harwain mewn adolygu materion allweddol i fyfyrwyr, yn ogystal ag ymgyrchoedd cynrychiolaeth a gwleidyddol yn unol gofynion yr aelodaeth gyfredol. Mae gan y Llywydd berthynas feirniadol â'r Prif Weithredwr, sy'n arwain tîm y staff o ran gweithredu dibenion y mudiad a chynnig cefnogaeth i'r swyddogion.

Fel Llywydd, byddwch yn derbyn hyfforddiant penodol gan sawl mudiad, yn fewnol ac yn allanol, ar sut i fod yn fyfyriwr lywodraethwr (fel aelod o Gyngor y Brifysgol) ymddiriedolwr ac fel swyddog myfyrwyr. Bydd UMAber yn sicrhau eich bod yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant.

Mae'r rôl yn un heriol a buddiol i chi, ac mae pob diwrnod yn wahanol.

## SWYDDOG MATERION CYMREIG & LLYWYDD UMCA

Mae rôl Llywydd UMCA a Swyddog Materion Cymreig yn un brysur a chyffrous. Mae'r Llywydd yn gweithio o Swyddfa UMCA ym Mhantycelyn, sydd wrth galon cymuned y myfyrwyr Cymraeg.

Mae'r Llywydd yn trefnu holl ddigwyddiadau rheolaidd UMCA gydol y flwyddyn, o Wythnos y Glas i Wythnos Nefi Blw. Mae'n llwyth o waith ond mae'n cynnig cryn lawer o foddhad hefyd. Mae disgwyl i'r Llywydd amddiffyn ac ymgyrchu dros hawliau Myfyrwyr Cymraeg a dysgwyr yr iaith yn y Brifysgol. Mae yna wastad ddigon i'w wneud yn y swydd hon, o drefnu gwersi Cymraeg, ymgyrchu a hyrwyddo'r iaith, i sicrhau bod polisïau dwyieithrwydd yn cael eu cynnal, a phopeth arall yn ogystal.

Er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r rôl hon, weithiau mae'n haws meddwl amdani fel rhedeg eich undeb bach eich hun, ond ar raddfa lai. Mae boddhad aruthrol i'w gael o wneud y rôl yma, ac mae'n brofiad y buaswn yn ei argymell i unrhyw un!

**Ymgyrchoedd a Digwyddiadau Allweddol:**

- Achub Neuadd Pantycelyn
- Wythnos y Glas UMAber
- Trip Torri Mewn i Dregaron
- Sŵn
- Y Ddawns Ryng-golegol
- Cinio Nadolig UMCA
- Wythnos Gymraeg
- Yr Eisteddfod Ryng-golegol
- Wythnos RAG UMCA
- Wythnos Nefi Blw

# SWYDDOGION LLAWN AMSER

## SWYDDOG GWEITHGAREDDAU



Y bobl fyddwch chi'n cysylltu â nhw amlaf yw'r rheiny ar bwyllgorau'r clybiau a'r cymdeithasau. Chi yw'r person y byddant yn mynd ato/ati, yr wyneb cyfarwydd, ac o'r herwydd rhaid i bobl fod yn gallu cysylltu â chi bob amser - drwy e-bost, yn y swyddfa, yn y dderbynfa, ar gampws Llanbadarn, ar eich ffôn gwaith a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn rhoi trefn ar faterion amserlenni ynghyd â chyd-drefnu mis RAG gyda'r Tîm RAG. Byddwch yn helpu'r SRhA i gyflawni eu haddewidion maniffesto a rhedeg ymgyrchoedd (yn ogystal â phennu cyllid grant).

Mae dydd Mercher BUCS yn llawn hwyl ond yn flinedig dros ben - mae'r diwrnod yn aml yn dechrau am 6 y bore er mwyn sicrhau bod y timoedd i gyd yno, gwirio bod yr holl yrwyr yn gwybod ble maen nhw'n mynd a phwy sydd angen mynd i ffwrdd gyntaf. Wedyn yn y prynhawn, byddwch yno i gefnogi'r timoedd, yn y cnawd ac ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chofnodi a mewnbynnu'r sgôr.

Bydd gennych gyfarfodydd rheolaidd â'ch cyd-swyddogion sabothol, a byddwch yn gweithio'n glòs â'r Cydlynydd Chwaraeon, Gavin Allen, ynghyd â chyfarfodydd misol â thîm y Ganolfan Chwaraeon a Phwyllgor Gwaith y Brifysgol er mwyn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn hwylus. Byddwch yn ysgrifennu'r Strategaethau ar gyfer cyfeiriad Chwaraeon, Cymdeithasu a Gwirfoddoli yn UMAber, ynghyd â chynnal Archwiliad Gweithgareddau ar sail yr adborth cyfredol a gesglir drwy Barthau Chwaraeon, Parthau Cymdeithasau, y system goleuadau traffig a'r Cyngor.

Yn bwysicaf oll, byddwch yn cael amser anhygoel, ac os nad ydych yn ofni tipyn o waith caled, yna gallaf addo i chi mai dyma un o'r swyddi gorau y bydd gennych chi gyfle i'w chyflawni.

**Key Campaigns & Events:**

- Wythnos Chwaraeon
- Ffeiriau'r Glas
- Mis RAG
- Ail Wythnos y Glas
- Superteams
- Farsiti
- 7 Bob Ochr Aber
- Cinio'r Gwobrau

# SWYDDOGION LLAWN AMSER

## SWYDDOG ADDYSG

Rôl y Swyddog Addysg yw cynrychioli myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ar bopeth sy'n ymwneud â'u haddysg. Mae'n swydd amrywiol iawn; un diwrnod gallech fod yn paratoi ar gyfer cyfarfod pwysig â'r Brifysgol, a'r nesaf gallech fod yn rhedeg sesiwn hyfforddi ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd. Bydd gennych gyfle i redeg ymgyrchoedd a digwyddiadau ar unrhyw beth sy'n ymwneud ag addysg. Byddwch yn lobïo'r Brifysgol ac unigolion i newid pethau sy'n bwysig yn eich barn chi, a byddwch yn gweithio gyda Chynrychiolwyr Academaidd i ganfod beth sy'n effeithio ar fyfyrwyr a'u haddysg; gallai hyn fod unrhyw beth o oriau agor y llyfrgell i'r ffordd y caiff cyrsiau cyfan eu rhedeg.

Byddwch yn gweithio gydag amryw o staff yn yr Undeb - yn cynllunio ymgyrchoedd, ysgrifennu sesiynau hyfforddi a gweithio gyda chynghorwyr, a byddwch yn dod i adnabod llawer o bobl yn y Brifysgol hefyd. Chi fydd cynrychiolydd myfyrwyr ar amryw o bwyllgorau'r Brifysgol, a chi fydd cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Academaidd, pwyllgor Cynrychiolwyr Athrofeydd.

Byddwch hefyd yn hyfforddi Cynrychiolwyr Academaidd er mwyn sicrhau y gallant berfformio'n effeithiol yn eu rôl, yn ogystal â recriwtio a hyfforddi Cynrychiolwyr Athrofeydd (uwch Gynrychiolwyr Academaidd) i fod yn llais myfyrwyr yn eu hadrannau a'u hathrofeydd. Bydd disgwyl i chi drefnu'r Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, popeth o gasglu enwebiadau i ddewis y lliwiau ar gyfer yr achlysur, a byddwch yng ngofal dod o hyd i dîm y Brifysgol ar gyfer University Challenge!

**Ymgyrchoedd a Digwyddiadau Allweddol:**

- Hyfforddi Cynrychiolwyr Academaidd
- Recriwtio a Hyfforddi Cynrychiolwyr Athrofa
- Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr
- Recriwtio ar gyfer University Challenge
- Gwell Ardal Astudio yn y Dref
- Agenda Aber – Ymgyrch Llais Myfyrwyr
- Llyfrgell 24 Awr
- Y Gynhadledd Addysg
- Siartr Cyflogaeth Ôl-raddedigion

# SWYDDOGION LLAWN AMSER

## SWYDDOG LLES

Mae rôl y Swyddog Lles wedi newid yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn mae gennym ganolfan les sydd â staff llawn yn yr Undeb, felly nid oes bellach angen i chi ddarparu cyngor i fyfyrwyr unigol.

Byddwch yn mynychu cyfarfodydd ar y lefel uchaf o fewn y Brifysgol, gan drafod y ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol, cymorth ariannol, llety a diogelwch myfyrwyr, ymhlith pethau eraill. Byddwch hefyd yn gweithio'n glòs gydag UCM Cymru, y Cyngor Lleol a Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisïau a deddfau er mwyn gwella bywydau myfyrwyr.

Mae yna fwy o amser i redeg ymgyrchoedd nag mewn rôl unrhyw swyddog arall, felly os ydych yn teimlo'n gryf ynglŷn â thai neu fwyta'n iach, gallwch wneud gwahaniaeth ar raddfa leol neu ranbarthol. Byddwch hefyd yn rhedeg digwyddiadau megis yr Wythnos Dai a Llety ac Wythnos SHAG (iechyd rhywiol).

Mae llawer mwy i'r swydd na bod yn ymgyrchydd ac yn ysgwydd i grio arni. Byddwch yn gadael â CV fydd yn eich gosod uwchlaw eich cyfoedion.

**Ymgyrchoedd a Digwyddiadau Allweddol**

- Y Ffair Les
- Y Ffair Dai a Llety
- Fforwm Llywio Landlordiaid
- Wythnos Iechyd ac Arweiniad ar Ryw
- Dim Goddefgarwch tuag at Aflonyddwch Rhywiol a Throseddau Casineb
- Amser i Newid Cymru – Ymgyrch Iechyd Meddwl

# SWYDDOGION RHAN AMSER

Etholir Swyddogion Rhan Amser bob blwyddyn, ond yn wahanol i'r Swyddogion Llawn Amser, maent yn gweithredu eu dyletswyddau'n gyfochrog â'u hastudiaethau. Mae gan bob swyddog rhan amser gyfrifoldeb penodol, a chânt eu cynorthwyo gan y Swyddogion Llawn Amser.

Mae'r rolau hyn yn rhai gwirfoddol a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ynghyd â'u hastudiaethau. Darperir hyfforddiant ar gyfer pob swyddog etholedig, ynghyd â chefnogaeth ac arweiniad i gyflawni eu rôl a throi eu hamcanion yn realiti.

## EIN HADDEWID I CHI

Pwy bynnag gaiff ei ethol, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Rydym yn addo i bob un o'n Swyddogion y byddant yn mwynhau eu hamser yn fawr, yn gwireddu eu hamcanion, yn ennill cryn lawer o sgiliau ac yn ymestyn eu gwybodaeth. Os oes angen ychydig mwy o ddarbwyllo arnoch, dyma rai o'r pethau y byddwch yn eu hennill a'u gwella drwy weithio gyda ni:

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Lobïo
- Gwaith tîm
- Cadeirio cyfarfodydd
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd

Os ydych chi am gael mwy o fanylion ynglŷn â bod yn Swyddog Llawn Amser, cysylltwch â ni drwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

# SWYDDOGION RHAN AMSER

## CADEIRYDD YR UNDEB

Mae Cadeirydd yr Undeb yn gyfrifol am redeg Cyngor yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion eraill, mae'r Cadeirydd yn mynd ati i hyrwyddo cyfarfodydd y Cyngor ac yn sicrhau bod trafodaethau'n deg, yn agored a bod pob penderfyniad a wneir yn dryloyw a democrataidd.

## SWYDDOG CYNALADWYEDD A MOESEG

Mae'r Swyddog Cynaladwyedd a Moeseg yn ymgyrchu ar faterion ynghylch yr amgylchedd, masnachu moesegol a datblygu cynaliadwy. Gan weithio gyda swyddogion, mudiadau a myfyrwyr eraill, bydd y Swyddog Cynaladwyedd a Moeseg yn sicrhau bod yr Undeb yn gweithredu'n foesegol.

## SWYDDOG YR IAITH GYMRAEG

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar y campws, gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg wrth galon yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion a mudiadau eraill, bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg yn ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r diwylliant Cymraeg ac yn sicrhau bod barn myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cael ystyriaeth.

## DIRPRWY SWYDDOG LLES

Gan weithio gyda'r Swyddog Lles, mae'r Dirprwy Swyddog Lles yn sicrhau bod ymgyrchoedd yn parhau i fod yn berthnasol i fyfyrwyr. Mae'n cynorthwyo gwaith ac ymgyrchoedd y swyddogion eraill ac yn arwain ymgyrchoedd sy'n helpu staff a myfyrwyr i greu cymuned hapus a chynhwysol.

# SWYDDOGION RHAN AMSER

## SWYDDOG Y CYMDEITHASAU

Gan weithio gyda'r Swyddog Gweithgareddau, mae Swyddog y Cymdeithasau'n sicrhau bod cymdeithasau'n helpu myfyrwyr i deimlo'n hapus ac yn iach, a'u bod yn datblygu fel pobl. Maent yn cynrychioli barn a safbwyntiau'r cymdeithasau i'r Undeb ac yn sicrhau bod eu gweithgareddau'n derbyn cefnogaeth. Maent hefyd yn gweithio gyda Phwyllgor Gwaith y Cymdeithasau i sicrhau bod cymdeithasau'n parhau i fod yn berthnasol i fyfyrwyr.

## SWYDDOG CHWARAEON

Gweithio gyda'r Pwyllgor Gwaith Chwaraeon i sicrhau bod chwaraeon yn parhau i fod yn berthnasol i fyfyrwyr a chynrychioli barn y clybiau chwaraeon i'r Undeb, gan sicrhau bod eu gweithgareddau'n derbyn cymorth angenrheidiol. Gweithio gyda'r Swyddog Gweithgareddau i helpu myfyrwyr deimlo'n hapus ac iach, a'u bod yn datblygu fel pobl.

## SWYDDOG RAG

Gan weithio gyda'r Tîm Gweithgareddau, mae'r Swyddog RAG yn cynorthwyo ac yn cydlynu holl weithgareddau codi arian ar y campws. Bydd yn gweithio gyda Phwyllgor Gwaith RAG ar gyfarwyddo gwaith elusennol UMAber, ynghyd â gweithio i godi arian ar gyfer elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

# SWYDDOGION RHYDDHAD AC ADRANNOL

Mae gan UMAber 4 Swyddog Rhyddhad a 3 Swyddog Adrannol sy'n cynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr. Fel y Swyddogion Rhan Amser, swyddi rhan amser yw'r rhain hefyd, a chânt eu cyflawni ochr-yn-ochr â'ch astudiaethau.

Yr unig wahaniaeth yw mai dim ond myfyrwyr sy'n hunan ddiffinio i'r grwpiau penodol hynny gaiff sefyll neu bleidleisio ar gyfer y swyddi hyn. Er enghraifft, dim ond myfyrwyr sy'n hunan ddiffinio fel menywod gaiff sefyll neu bleidleisio ar gyfer rôl Swyddog y Menywod.

## EIN HADDEWID I CHI

Pwy bynnag gaiff ei ethol, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Rydym yn addo i bob un o'n Swyddogion y byddant yn mwynhau eu hamser yn fawr, yn gwireddu eu hamcanion, yn ennill cryn lawer o sgiliau ac yn ymestyn eu gwybodaeth. Os oes angen ychydig mwy o ddarbwyllo arnoch, dyma rai o'r pethau y byddwch yn eu hennill a'u gwella drwy weithio gyda ni:

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Lobïo
- Gwaith tîm
- Cadeirio cyfarfodydd
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd

Os ydych chi am gael mwy o fanylion ynglŷn â bod yn Swyddog Llawn Amser, cysylltwch â ni drwy undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

# SWYDDOGION RHYDDHAD AC ADRANNOL

## SWYDDOG Y MYFYRWYR CROENDDU A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Mae Swyddog y Myfyrwyr Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig (CLlE) yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr croenddu a lleiafrifol ethnig. Drwy weithio gyda'n swyddogion, byddan nhw'n ymgyrchu ar faterion sy'n berthnasol i fyfyrwyr CLlE.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR ANABL

Mae Swyddog y Myfyrwyr Anabl yn cynrychioli myfyrwyr ar y campws sy'n hunan ddiffinio fel unigolyn anabl, boed yn anabledd anweladwy neu fel arall. Gan siarad ar ran cymuned y myfyrwyr anabl, rôl Swyddog y Myfyrwyr Anabl yw sicrhau y caiff hawliau myfyrwyr anabl eu gwarchod a'u hymestyn yn ein Hundeb, yn y Brifysgol ac yn ein cymuned.

## SWYDDOG LHDT+

Mae'r Swyddog LHDT+ yn cynrychioli'r gymuned Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol ar y campws. Gan weithio'n glòs gyda swyddogion yr Undeb, myfyrwyr a grwpiau buddiannau, rôl y Swyddog LHDT+ yw amddiffyn ac ymestyn cydraddoldeb i'r holl fyfyrwyr hynny sy'n hunan ddiffinio fel LHDT+

# SWYDDOGION RHYDDHAD AC ADRANNOL

## SWYDDOG Y MENYWOD

Mae Swyddog y Menywod yn cynrychioli myfyrwragedd ar y campws ac yn ymgyrchu i sicrhau cydraddoldeb rhyweddol yn ein Hundeb, yn y Brifysgol ac yn ein cymuned. Mae ei rôl yn cynnwys cynnal ymgyrchoedd, cefnogi myfyrwyr a darparu gwybodaeth yn ogystal â gweithio gyda swyddogion rhyddhad eraill a'r Pwyllgor Gwaith i sicrhau caiff anghenion myfyrwragedd eu hystyried.

## SWYDDOG Y MYFYRWYR RHYNGWLADOL

Yn ogystal â chynrychioli barn cymuned y myfyrwyr rhyngwladol, mae'r Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol yn gweithio i wella eu lles a'u profiad. Mae'r Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol yn gweithio gyda swyddogion eraill i ymgyrchu ar faterion sy'n berthnasol i fyfyrwyr rhyngwladol.

## SWYDDOG MYFYRWYR HYN

Mae Swyddog y Myfyrwyr Hŷn yn gyfrifol am gynrychioli barn a buddiannau myfyrwyr hŷn yn yr Undeb a'r Brifysgol. Hefyd mae'n annog cyfranogiad myfyrwyr hŷn yn yr Undeb a hybu lles y myfyrwyr hynny.

# MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR

## MYFYRIWR YMDDIRIEDOLWR (ISRADDEDIG)

Fel Ymddiriedolwr Israddedig, byddwch yn gweithio gydag aelodau staff allweddol ac ymddiriedolwyr i sicrhau bod llais Ôl-raddedigion yn rhan o bob penderfyniad pwysig a wneir gan yr Undeb.  Ynghyd â'r ymddiriedolwyr eraill, byddwch yn gyfrifol am arolygu Cyllid a Llywodraethiant yr Undeb.

Bydd hefyd gofyn i chi gymryd rhan mewn gwahanol Is-bwyllgorau ar faterion megis Penodiadau, Risg Ariannol, Cydraddoldeb ac Amrywioldeb. Mae gofyn i bob Ymddiriedolwr fynychu o leiaf 6 chyfarfod y flwyddyn i gefnogi amcanion yr Undeb.

Mae gweithredu fel Ymddiriedolwr yn gyfle gwych, ond mae yna rai manylion y dylech fod yn ymwybodol ohonynt:

1. Dim ond myfyrwyr ôl-raddedig presennol gaiff ymgeisio a phleidleisio ar gyfer rôl yr Ymddiriedolwr Ôl-raddedig.
2. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r swydd ar 1 Gorffennaf a bydd yn parhau i fod yn Ymddiriedolwr am 2 flynedd oni fydd yn cwblhau ei astudiaethau cyn diwedd y 2 flynedd yma.
3. Ni allwch wasanaethu fel Myfyriwr Ymddiriedolwr am fwy na 2 gyfnod, a rhaid i chi fod yn fyfyriwr gydol yr amser rydych yn Fyfyriwr Ymddiriedolwr.

## EIN HADDEWID I CHI

Pwy bynnag gaiff ei ethol yn un o'n Hymddiriedolwyr, gallwn eich sicrhau na fyddwch ar eich pen eich hun. Rydym yn addo i bob un o'n Hymddiriedolwyr y byddant yn mwynhau eu hamser yn fawr, yn dysgu cryn lawer o sgiliau ac yn ymestyn eu gwybodaeth; ar y cyd, byddant yn gyfrifol am fudiad elusennol.

Os ydych chi angen ychydig mwy o ddarbwyllo, dyma rai o'r sgiliau y byddwch yn eu meithrin drwy weithio gyda ni:

- Arweinyddiaeth a Gwneud Penderfyniadau Strategol
- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Gweithio mewn tîm a sgiliau pwyllgor

# CYNRYCHIOLWYR UCM

## CYNRYCHIOLWYR UCM

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yn cynnal cynhadledd genedlaethol bob blwyddyn. Mae'r gynhadledd hon yn gosod polisïau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac yn ethol Llywydd, Dirprwy Lywydd a chynrychiolwyr eraill. Hefyd, caiff y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod ei phenderfynu drwy'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB). Mae gan UMAber gyfle i anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd hon lle gallant leisio eu barn, cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio yn yr etholiadau ac yn y CCB.

**Eleni, cynhelir y gynhadledd yn Brighton, 19 – 21 Ebrill 2016.**

Caiff UMAber anfon pedwar cynrychiolydd i'r Gynhadledd Genedlaethol:

*Ceir 4 lle ychwanegol ar gyfer myfyrwyr (neu Swyddogion Myfyrwyr) wedi eu hethol mewn pleidlais draws gampws*

Mae UCM yn gweithredu rheol cydbwysedd rhywedd sy'n golygu bod rhaid i o leiaf 2 o'n cynrychiolwyr fod yn fenywod.

## CYNRYCHIOLWYR I GYNHADLEDD UCM CYMRU

Bydd y gynhadledd eleni'n ethol y Llywydd, y Dirprwy Lywydd a chynrychiolwyr eraill. Mae'r penderfyniadau a wnaed yn y gynhadledd hon yn creu gwir effaith ar UMAber a myfyrwyr ledled y wlad. Mae gan UMAber gyfle i anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd hon lle gallant leisio eu barn, cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio yn yr etholiadau ac yn y CCB.

**Eleni, cynhelir y gynhadledd ar 9 – 10 Mawrth 2016.**

Caiff UMAber anfon pedwar cynrychiolydd i'r Gynhadledd Genedlaethol:

- *5 lle ychwanegol ar gyfer myfyrwyr (neu Swyddogion Myfyrwyr) wedi eu hethol mewn pleidlais draws gampws.*

Mae UCM Cymru'n gweithredu rheol cydbwysedd rhywedd sy'n golygu bod rhaid i o leiaf 2 o'n cynrychiolwyr fod yn fenywod. .

## BETH ALLWCH CHI EI DDISGWYL?

Fel cynrychiolydd, bydd gennych gyfle i rannu barn, gobeithion a breuddwydion UMAber ar lwyfan cenedlaethol. Rydym hefyd yn addo y cewch chi amser anhygoel yn y gynhadledd, cwrdd â phobl ddiddorol ac ennill sgiliau gwerthfawr megis:

- Cyfathrebu
- Sgiliau trefnu
- Sgiliau gwrando a rhyngbersonol
- Lobïo

# RHEOLAU AC ARWEINIAD YR ETHOLIAD

Gweler y broses gywir ar gyfer cyflwyno cais i sefyll yn yr etholiadau yn ogystal â phroses yr etholiadau yng Nghanllawiau'r Ymgeiswyr. Dim ond ceisiadau a gwblheir yn y ffordd hon ac o fewn y dyddiad cau penodol a gaiff eu derbyn.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ymddwyn mewn modd teg a rhesymol yn ogystal ag ymgyrchu'n gadarnhaol sy'n helpu myfyrwyr i bleidleisio.

Ni chredwn fod rheolau cyfyngedig yn helpu'r broses etholiadol i annog myfyrwyr i drafod eu profiad yn y dyfodol neu eu helpu i bleidleisio. Felly, rydym yn gweithio ar greu cyn lleied o reolau â phosib. Disgwylir i'r ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw a'u tîm yn cefnogi hyn.

Pe bai gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag ymddygiad ymgyrchoedd, dylech chi gael tystiolaeth y bydd yn effeithio ar ganlyniad y bleidlais. Os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn ynglŷn â'r etholiad, dylid defnyddio'r broses ganlynol:



Dylech chi grynhoi'r mater drwy e-bost a'i anfon at undeb. etholiadau@aber.ac.uk gyn gynted â phosib.

Dylech chi nodi:

- Pwy ydych chi
- Beth yw eich cwyn
- Tystiolaeth sydd gennych fod rheol wedi ei dorri
- Pa ganlyniad hoffech chi ei weld


Bydd eich Dirprwy Swyddog Etholiadau'n ystyried eich e-bost a gall ymgynghori ag eraill er mwyn penderfynu.

Byddwch yn derbyn e-bost gyda manylion penderfyniad y Dirprwy Swyddog Etholiadau. Caiff hyn ei wneud cyn gynted â phosib ond gall achosion mwy cymhleth gymryd amser i'w archwilio.

Os ydych chi'n credu bod yna dystiolaeth newydd neu os ydych chi'n anghytuno â chosb, cewch apelio at y Swyddog Etholiadau. Dylech chi grynhoi'r apêl mewn e-bost a'i hanfon at undeb. etholiadau@aber.ac.uk gyn gynted â phosib. Dylech chi gynnwys eich rheswm dros apelio, pa dystiolaeth newydd sydd gennych a pha ganlyniad hoffech chi ei weld.

Bydd y Swyddog Etholiadau'n ystyried eich apêl a gall ymgynghori â chi neu bobl eraill. Penderfyniad y Swyddog Etholiadau fydd yr un terfynol ac ni ellir ei apelio. Ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn, **y Dirprwy Swyddog Etholiadau fydd Daniel Meehan**.

Dylid gwneud unrhyw gŵyn cyn gynted â phosib wedi'r digwyddiad. Bydd yn anodd iawn beirniadu cwynion a wnaed ar ôl cyfnod hir. Mewn unrhyw ddigwyddiad, ni ystyrir cwynion wedi diwedd y bleidlais oni bydd yn effeithio ar ymddygiad cyfrif y bleidlais.



# CYHOEDDUSRWYDD

Bydd UMAber yn sicrhau bod maniffestos swyddogol a gyflwynwyd gan ymgeiswyr ar gael ar-lein. Ni fydd UMAber yn cynnwys unrhyw faniffesto a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad cau a nodwyd. Caiff ymgeiswyr, wrth gwrs, gynhyrchu pa bynnag gyhoeddusrwydd ychwanegol y dymunant.




Eleni, bydd UMAber yn rhoi cyllid i'r ymgeiswyr i'w cynorthwyo o ran prynu deunydd hyrwyddo ar gyfer eu hymgyrchoedd. Caiff cyfyngiadau gwario eu cadarnhau gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn ystod sesiwn briffio olaf yr etholiadau wedi i'r enwebiadau gau.

Byddwn yn rhannu'r maniffestos swyddogol â myfyrwyr drwy e-bost, ar ein gwefannau a thrwy ein cyfryngau cymdeithasol. Buasem yn eich annog i fod yn greadigol a gwneud eich ymgyrchu electronig eich hun, ond dylech gofio nad oes unrhyw beth yn darbwyllo myfyrwyr i bleidleisio'n well na chyswllt wyneb-yn-wyneb.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â chyhoeddusrwydd, e-bostiwch undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

## DWYIEITHRWYDD

Mae UMAber yn fudiad dwyieithog ac felly mae'n orfodol i'r holl ymgeiswyr gynhyrchu deunydd ymgyrchu dwyieithog. Darperir cyfieithu i'r holl ymgeiswyr a byddwn yn ymdrechu i ddychwelyd eich cynnwys o fewn dau ddiwrnod ar ôl derbyn eich cais.



I wneud cais am gyfieithu bydd angen i chi e-bostio eich cynnwys i undeb.etholiadau@aber.ac.uk. Sicrhewch eich bod chi'n nodi natur y cynnwys yn glir ar bob dogfen rydych chi'n eu hanfon h.y. slogan, gwybodaeth ar boster ayyb.


Wrth anfon eich cais rhaid i chi ddweud wrthym:

- Eich enw
- Y rôl rydych chi'n sefyll amdani
- Cyfanswm y geiriau

# PLEIDLEISIO

## GORSAFOEDD PLEIDLEISIO

Mae tystiolaeth o Aberystwyth a phrofiadau undebau myfyrwyr eraill yn awgrymu'n gryf y caiff nifer y myfyrwyr sy'n pleidleisio mewn etholiad ei ddylanwadu'n gryf gan sut mae'r ymgeiswyr yn siarad â'r pleidleiswyr ac yn eu hannog i bleidleisio. Cyswllt wyneb-yn-wyneb yw'r peth pwysicaf mewn etholiadau.



Bydd swyddogion etholiadau wastad yn gofyn i ymgyrchwyr adael llonydd i fyfyrwyr pan fyddant yn bwrw eu pleidlais a bydd gofyn iddynt aros ymhell i ffwrdd o'r gorsafoedd pleidleisio.

Cynhelir y bleidlais ar ein gwefan, www.umaber.co.uk/etholiadau.

Bydd angen i fyfyrwyr ddefnyddio eu manylion mewngofnodi myfyriwr i bleidleisio a rhaid iddynt wneud hynny ar eu pen eu hunain.

Nid yw'n dderbyniol i fyfyrwyr bleidleisio ar ran myfyrwyr eraill; yn wir, mae hynny'n groes i'r rheolau. Cyhoeddir gwybodaeth ynglŷn â'r holl orsafoedd pleidleisio yn nes at yr amser.

## Y DULL PLEIDLEISIO




Yn yr holl etholiadau, rydym yn defnyddio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy i ethol ein cynrychiolwyr myfyrwyr. Yn y bôn, mae hyn yn golygu bod gan bob pleidleisiwr gyfle i restru'r ymgeiswyr yn ôl trefn hoffter – byddant yn nodi rhifau yn hytrach na marc.

Rhaid i ymgeisydd buddugol dderbyn nifer penodol o bleidleisiau (neu gwota) er mwyn cael ei ethol. Bydd hwn yn newid yn dibynnu ar nifer y pleidleisiau a fwriwyd, ond gan amlaf, y cwota fydd nifer y rolau a gaiff eu hethol wedi'u rhannu gan un a nifer y rolau. Yn ein barn ni, dyma'r dull tecach gan am fod rhaid i'r ymgeiswyr gael cefnogaeth eang er mwyn ennill.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r dull hwn ar www.electoral-reform.org.uk/single-transferable-vote (Saesneg yn unig)

# HYFFORDDIANT AR GYFER YMGEISWYR

Rydym am i bob ymgeisydd wybod yn union beth maent yn ei wneud, fel bod gan y rheiny sy'n sefyll yn yr etholiadau gyfle da i ennill a mwynhau'r profiad o ymgeisio. Rydym wedi trefnu nifer o sesiynau hyfforddi i helpu ymgeiswyr a thimoedd ymgyrchu i wneud y gorau o'r broses etholiadau.

## ETHOLIADAU 101

Bydd y Tîm Etholiadau yn cynnal diwrnod hyfforddi fydd yn trafod â'r pethau sylfaenol o ran rhedeg ymgyrch etholiad lwyddiannus. Byddwn yn trafod popeth o ysgrifennu maniffesto i redeg ymgyrch.

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer pwy** | Unrhyw fyfyriwr sydd am sefyll yn yr etholiadau neu os ydych chi am gefnogi ffrind sy'n sefyll |
| **Gyda** | Y Tîm Etholiadau |
| **Pryd** | Dydd Gwener 5 Chwefror, 5pm, Ystafell Bwyllgor |

## BRIFFIO OLAF AR ETHOLIADAU AR GYFER YMGEISWYR A DDERBYNIWYD

Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn briffio'r ymgeiswyr llwyddiannus ar y rheolau, y newyddion diweddaraf a'r disgwyliadau a all fod gan bawb gydol y broses etholiadol

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer pwy** | Pob myfyriwr sydd wedi cyflwyno ffurflen enwebu ac sydd wedi cael eu derbyn fel ymgeiswyr yn yr etholiadau |
| **With** | Dirprwy Swyddog Etholiadau, Pwyllgor Etholiadau |
| **When** | Dydd Gwener 5 Chwefror, 5pm, Ystafell Bwyllgor |

# ENWEBIADAU A MANIFFESTOS

Mae disgwyl i bob ymgeisydd gyflwyno eu henwebiadau a'u maniffestos drwy www.umaber.co.uk/etholiadau. Mae 2 gam gwahanol i'r broses enwebu: yn gyntaf mae angen i chi ddweud wrthym ba swydd rydych yn ymgeisio amdani, ac yn ail rhaid i chi gyflwyno maniffesto.

## CAM 1: SUT I YMGEISIO

**1. Mewngofnodi**

I enwebu eich hun, yn gyntaf mewngofnodwch i'r wefan drwy fewngofnodi fel myfyriwr. Nesaf, ewch i'r adran enwebiadau o'r dudalen etholiadau: bydd hon yn mynd yn fyw ar 11/01/16 am 12pm a bydd gennych tan 12pm ar y 05/02/16 i ddweud wrthym eich bod yn ymgeisio ar gyfer swydd.

**2. Cadarnhau gwybodaeth**

Nesaf, bydd gofyn i chi arbed/cadarnhau'r wybodaeth gywir ynglyn â chi eich hun.

**3. Dewis rolau i ymgeisio amdanynt**

Unwaith y byddwch wedi clicio ar y botwm arbed, cewch eich tywys i dudalen sy'n dangos pob un o'r swyddi rydych yn gymwys i ymgeisio amdanynt (os nad ydych yn gymwys am ryw reswm, nodir hyn dan y swydd berthnasol). Os ydych yn credu y dylech fod yn gymwys ar gyfer swydd a bod y wefan yn dweud nad ydych chi, cysylltwch â Dan Meehan gynted â phosib ar undeb.etholiadau@aber.ac.uk

**4. Ymgeisio ar gyfer rôl**

Pan fyddwch wedi penderfynu ar y rôl/rolau yn dymuno ymgeisio amdani/amdanynt, cliciwch fotwm 'Stand'. Bydd hwn yn cyflwyno eich manylion yn awtomatig i'r system.

## CAM 2: SUT I GYFLWYNO MANIFFESTO

**1. Uwchlwytho'r testun terfynol**

Pan fyddwch chi wedi ysgrifennu'r fersiwn terfynol o'ch maniffesto (yn Gymraeg neu'n Saesneg), cyflwynwch hon i adran faniffesto'r wefan. Yr uchafswm geiriau ar gyfer swyddi llawn amser yw 300, a 200 ar gyfer pob rôl arall (heb gynnwys cyfieithiad). Peidiwch â fformadu'r testun mewn unrhyw ffordd.

**2. Cyfieithu**

Er mwyn sicrhau y gellir cyfieithu testun eich maniffesto (cyn y bydd ymgyrchu'n dechrau) y dyddiad cau ar gyfer uwchlwytho testun i'r wefan yw 05/02/16. Wedyn byddwn yn anfon y testun i gael ei gyfieithu. Po gynted y byddwch yn cyflwyno'r testun i'r wefan, cyntaf yn y byd y byddwch yn ei dderbyn yn ôl. Os ydym yn derbyn unrhyw gyflwyniadau ar ôl y dyddiad hwn, ni allwn sicrhau y byddwch yn ei dderbyn yn ôl mewn pryd.

Pan fyddwn yn ei dderbyn yn ôl wedi ei gyfieithu, byddwn yn e-bostio copi i chi i'w ddefnyddio mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd y byddwch yn ei gynhyrchu, a byddwn yn ei ychwanegu i'r templed maniffestos i'w ddefnyddio ar y wefan. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth pellach â'ch maniffestos ar-lein.

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth ynglŷn â pholisi dwyieithrwydd yr Undeb a'r rheolau sy'n perthyn i gyhoeddusrwydd Etholiadau, gallwch e-bostio Daniel Meehan: undeb.etholiadau@aber.ac.uk.

# NOSON Y CANLYNIADAU

Cyhoeddir yr enillwyr yn ein Noson Canlyniadau, digwyddiad uchel ei broffil lle daw ymgeiswyr, timoedd ymgyrchu a chyfeillion at ei gilydd i ddathlu.

Cynhelir y digwyddiad ar **nos Iau 18 Chwefror** ac mae'n gyfle i ymgeiswyr gael bwyta, yfed ac ymlacio ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben am **5pm**. Mae'r digwyddiad yn agored i fyfyrwyr oll ac fe'i cynhelir ym Mhrif 'Stafell yr Undeb, gyda'r drysau'n agor am **7:30pm**.

Bydd bar ar gael i'r ymgeiswyr fel y gallant ymlacio ar ôl wythnos o ymgyrchu cyn y digwyddiad. Wrth i gyfnod yr etholiadau fynd rhagddo, byddwn yn eich darparu â'r wybodaeth ddiweddaraf, ond am y tro, cadwch y dyddiad yn rhydd!



# DOD YN YMGEISYDD

Cyflwynir ceisiadau drwy www.umaber.co.uk/etholiadau. Dyma'r unig ffordd i gyflwyno cais.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12pm, dydd Llun 5 Chwefror 2016**.

Ni chaiff unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn eu derbyn.

Unwaith y byddwn wedi cadarnhau eich bod yn fyfyriwr yn y Brifysgol, ac yn sgil hynny'n gymwys i ymgeisio, byddwn yn eich e-bostio gyda chadarnhad o'ch enwebiad ac yn gosod manylion pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y wefan.

**Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at undeb.etholiadau@aber.ac.uk**